# CA3 Cymraeg – Ysgrifennu disgrifiadol

**Gweithgaredd 3**

**Atebion**

Rwyf am sôn wrthych am gartref fy nain - Fferm Glan-yr-afon. Heb amheuaeth mae'n lle **godidog** yng nghanol prydferthwch cefn gwlad gogledd Cymru. Mi fyddai rhai yn dweud mai lle digon **di-nod** mewn ardal ddigon **anghysbell** ydyw, ond, i mi, mae'r fferm yn llawn atgofion ac mae'r **ffermdy yn ddewin** yn llawn hud a lledrith.

Mae'r golygfeydd **hardd** yn fy rhyfeddu. Wedi amgylchynu'r ffermdy mae **blanced werdd** gydag ambell flodyn yn ymestyn i'r haul neu ddafad yn pori. Mae'n lle cymharol **dawel** heblaw am ambell **dractor yn chwyrnu**. Wrth gamu allan o'r car gallaf glywed **yr adar yn canu fel côr** swynol.

Peidiwch â meddwl bod y fferm **yn dawel fel y bedd** drwy'r amser, mae chwerthin **uchel** a siarad **diddiwedd** fy nain a'i ffrindiau siaradus i'w glywed weithiau. Bydd **briwsion** y cacennau cri **ffres** o'r popty **yn dawnsio** oddi ar wefusau'r cyfeillion wrth iddynt roi'r byd yn ei le. Pan fyddwch yn cerdded trwy ddrws **cul** y ffermdy gallwch arogli'r bara ffres sy'n pobi yn y popty sy'n deffro rhyw deimlad **bywiog** yn eich corff. Mae'r ffermdy ar ei orau pan mae'r **haul yn edrych lawr** arno ac yn gwenu. Yn wir dyma'r lle **gorau** yn y byd.

- **cymariaethau** - adar yn canu fel côr/yn dawel fel y bedd
- **trosiadau** - y ffermdy yn ddewin/blanced werdd
- **ansoddeiriau** - godidog/di-nod/anghysbell/hardd/tawel/uchel/ diddiwedd/siaradus/ffres/cul/bywiog/gorau
- **personoli** - blodyn yn ymestyn/tractor yn chwyrnu/adar yn canu/briwsion yn dawnsio/haul yn edrych lawr


© BBC